

Ysgol Gynradd Llandegfan



Polisi Gwarchod rhag yr haul

Cytunwyd gan Staff: Tachwedd 2017
Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr: Rhagfyr 2017
Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2019

Arwyddwyd

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Yn Ysgol Gynradd Llandegfan rydym yn cydnabod pwysigrwydd amddiffyniad rhag yr haul ac rydym yn awyddus i'r staff a'r disgyblion fwynhau'r haul yn ddiogel. Byddwn yn gweithio gyda'r staff, y disgyblion a'r rhieni i gyflawni hyn drwy:

ADDYSG – mae'r mesurau hyn ar waith o hyn ymlaen:

- ❖ Bydd pob disgybl yn cael ei o leiaf un wers SunSmart y flwyddyn.
- ❖ Byddwn yn trafod sut i fod yn ddiogel yn yr haul mewn gwasanaethau ar ddechrau tymor yr haf a chyn gwyliau'r haf.
- ❖ Anfonir llythyr at rieni a gwarcheidwaid yn esbonio'r hyn y mae'r ysgol yn ei wneud ynglŷn ag amddiffyniad rhag yr haul a sut y gallant helpu ar ddechrau tymor yr haf.
- ❖ Bydd athrawon yn wybodus o SunSmart a bydd gwybodaeth am ddiogelwch yn yr haul ar gael yn ystafell y staff.

DIOGELU – mae hon yn broses barhaus

Cysgod:

- ❖ Byddwn yn annog myfyrwyr i eistedd/chwarae yn y cysgod lle bydd ar gael.
- ❖ Byddwn yn edrych ar y posibilad o greu cysgod yn yr ardal goedwig pan bydd cyllid ar gael.

Amserlennu:

- ❖ Rydym yn ceisio trefnu gweithgareddau awyr agored, tripiâu ysgol a gwersi ymarfer corff cyn 11 y bore a 3 y prynhawn os yw'n briodol. Os na ellir osgoi hyn byddwn yn sicrhau bod pawb yn gwisgo hetiau, dillad a hufen haul er mwyn osgoi llosg haul.

Dillad:

- ❖ Mae'n argymhellig i blant wisgo het sy'n gorchuddio eu clustiau, eu hwynebau a'u gwddw/gwar
- ❖ Awgrymer i pob athro/athrawes wisgo hetiau pan fyddant ar ddyletswydd yn yr iard chwarae ac wrth addysgu yn yr awyr agored.

Hufen haul:

- ❖ Anogir y defnydd o hufen haul yn ystod yr haf ac yn ystod amseroedd chwarae, yn ystod gwersi ymarfer corff ac ar dripiâu ysgol. Ni fydd yr ysgol yn darparu i ddisgyblion.
- ❖ Byddwn yn anfon llythyrau adref yn gofyn am ganiatâd i blant roi hufen haul yn ystod misoedd yr haf.

Byddwn yn monitro ein cynnydd ac yn adolygu'r polisi'n bob 3 mlynedd.

Ebrill 26^{ain} 2018

Annwyl Riant neu Warcheidwad,

Nawr bod tymor yr haf wedi dechrau yr oeddwn am ysgrifennu atoch i sôn wrthy ch am ein **polisi amddiffyniad rhag yr haul** newydd. Rydym wedi datblygu hyn er mwyn sicrhau y gall pob un ohonom fwynhau'r haul yn ddiogel yn ystod y misoedd nesaf.

Mae pelydrau'r haul yn gryf iawn dros yr haf a gallant niweidio croen plant. Efallai nad yw hyn yn ymddangos fel problem yn awr, ond yn anffodus gall arwain at **ganser y croen** yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae iechyd a lles eich plentyn yn bwysig iawn i ni, a dyna pam ein bod wedi penderfynu i:

- ❖ cynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysgol yn dysgu am amddiffyniad rhag yr haul
- ❖ darparu mwy o gysgod ar yr iard chwarae pan fydd cyllid yn caniatau.
- ❖ annog disgyblion i wisgo hetiau a chrysau t pan fyddant yn yr awyr agored
- ❖ annog disgyblion i ddefnyddio hufen haul ffactor 15+ o leiaf yn ystod misoedd yr haf.

Ceir manylion pellach am y cynlluniau hyn a chynlluniau amddiffyniad rhag yr haul newydd yn ein polisi SunSmart sydd wedi'i atodi i'r llythyr hwn. Yr wyf hefyd wedi cynnwys cerdyn gwybodaeth SunSmart a fydd yn esbonio sut i gadw eich plentyn yn ddiogel rhag yr haul pan fyddant adref.

Mae eich cefnogaeth yn bwysig iawn i ni os yw ein polisiâu newydd am lwyddo. Gallwch helpu drwy:

- ❖ siarad â'ch plentyn ynglŷn â phwysigrwydd amddiffyniad rhag yr haul pan fyddant adref
- ❖ anfon eich plentyn i'r ysgol gyda het ag ymyl lydan

Gyda'n gilydd, gobeithio y cawn dymor hapus a diogel iawn!

Cofion gorau,

Mr D Hood

Pennaeth

At Ysgol Gynradd Llandegfan we acknowledge the importance of sun protection and want staff and pupils to enjoy the sun safely. We will work with staff, pupils and parents to achieve this through:

EDUCATION - these measures are in place from now on:

- ❖ All pupils will have at least one SunSmart lesson per year.
- ❖ We will talk about how to be SunSmart in assemblies at the start of the summer term and before summer break.
- ❖ Parents and guardians will be sent a letter explaining what the school is doing about sun protection and how they can help at the beginning of the summer term.
- ❖ Teachers will know about SunSmart and information on sun safety will be provided in the staff room.

PROTECTION – this is an ongoing process

Shade:

- ❖ We will encourage students to sit/play in the shade where it is available.
- ❖ We are planning on acquiring a shaded area when finances allow.

Timetabling:

- ❖ We will aim to schedule outside activities, school trips and PE lessons before 11am and after 3pm if appropriate. If this is unavoidable we will ensure hats, clothing and sunscreen are all worn to prevent sunburn.

Clothing:

- ❖ We advise that children are to wear hats that cover the ears, face and neck.
- ❖ It is recommended that all teachers wear hats when on playground duty and teaching outdoors.

Sunscreen:

- ❖ Sunscreen use will be encouraged during summer at lunch breaks, during PE lessons and on school trips. We will send letters home asking for permission for children to apply sunscreen during the summer months.
- ❖ We will not be supplying sunscreen for the pupils. This is the responsibility of the parents/guardians.

We will monitor our progress and review when necessary.

April 26th 2018

Dear Parent or Guardian,

Now the summer term has started I wanted to write and tell you about our new **sun protection policy**. We have developed this to ensure that we can all enjoy the sun safely over the coming months.

The sun's rays are particularly strong over the summer and they can damage children's skin. This may not seem like a problem right now, but sadly it can lead to **skin cancer** in later life. Your child's health and well-being are very important to us, which is why we have decided to:

- ❖ increase the amount of school time spent learning about sun protection
- ❖ provide more shade in the playground when finance is available.
- ❖ encourage pupils to wear hats and t-shirts when outside
- ❖ encourage pupils to use at least factor15+ sunscreen in summer months.

More details of these and other new sun protection plans can be found in our SunSmart policy which I am attaching to this letter. I have also included a SunSmart information card which will explain how to keep your child safe from the sun at home.

Your support is very important if our new policies are going to work. You can help by:

- ❖ talking to your child about the importance of sun protection at home
- ❖ sending your child to school with a wide brimmed hat
- ❖ returning the sunscreen permission slip at the bottom of school trip letters home
- ❖

Together I hope we can have a very happy and safe term to come!

All the best,

Mr D Hood

Head Teacher

